

Response to Commission on Justice in Wales

Dr Amanda Clare Senior Lecturer in Computer Science, Department of Computer Science, Aberystwyth University

Dr Catrin Fflur Huws, Senior Lecturer in Law, Aberystwyth Law School, Aberystwyth University

Document A

Response prepared by Dr Amanda Clare, Senior Lecturer in Computer Science, Department of Computer Science, Aberystwyth University to the call for evidence Commission on Justice in Wales

June 2018

Computers are now pervasive and ubiquitous among the population. We have smartphones, tablets and laptops in the home, we expect to find immediate information on the web and we send and receive immediate communication via email and other instant messaging channels.

Examples of the current use of computers by the public with regard to justice in Wales would include: use of the web to find representation, making online applications and submissions and checking on their status, searching for details of nearby planning applications, learning about the reported outcomes of similar cases, finding answers to frequently asked questions. Accessible online information is especially valuable to the rural community of Wales, who would otherwise be isolated from the knowledge of experts. Increasingly now, in a world where online companies routinely hold substantial information about our lives, we have high expectations that the justice system, together with the health system, social welfare system, tax system and others, collate accurate and up to date electronic records and share pertinent information securely between agencies so that case hearings are fully informed. We may be disappointed when we learn that this is not standard practice, that paper-based systems are still used, and that the delivery of papers is holding up progress. We are disappointed that some computational systems still need to get the basics right, such as accessibility, bilingual interfaces, booking appointments, online help, a contact telephone helpline or email address and clear and current information.

Computers can be used to provide a valuable decision/diagnostic tool (for example see the Symptom Checker from NHS Direct Wales) and to provide automatic answers to frequently asked questions, to save the time of professionals. In this scenario, human expert knowledge has been extracted, structured and made available, and computers provide an interface to that knowledge. Computers are also used to assist the search of case archives, searching metadata or text-based full content, where the information is unstructured and must still be analysed by a human after retrieval. These applications may in some scenarios be labelled as Artificial Intelligence (AI). The processes of encoding legal knowledge in formal and unambiguous computational representations (such as logic and algorithms) can also highlight discrepancies, inconsistencies, insufficiencies and unnecessary complexity.

The public are, quite rightly, concerned about the role of AI and the ethics of the inferences that computer algorithms can make from our personal data. We need to be aware of the potential implications of the use of computers for justice. Artificial Intelligence is a term used to describe any computing solution that appears to show "intelligence" rather than merely calculate routine results. However, we cannot agree on what "intelligence" encompasses, even for humans, and therefore the definition of AI is necessarily a moving set of goalposts. We might once have considered the act of machines playing chess to be intelligent, but many now see this as just computation. However, even the calculation of routine results can be complex enough to be very difficult for a human to inspect and understand.

Tasks such as "Find previous cases similar to this case", "List all regulations that apply to this case", and "Provide a judgement for this case" would be considered to be increasingly more complex AI, due to the large domain knowledge required and the ambiguity of natural language. In these scenarios, some errors will be made, though it may be that in restricted scenarios the error rate could be as low as that of an expert human. Tasks such as these would currently be cutting edge research.

Dogfen B

Ymateb gan Dr Catrin Fflur Huws, Uwch Ddarlithydd yn y Gyfraith, Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Aberystwyth i'r Galw am Dystiolaeth, Comisiwn Cyfraith Cymru Mehefin 2018

1. Beth sy'n gweithio'n dda yn y system gyfiawnder troseddol yng Nghymru? Beth sydd ddim yn gweithio cystal? A oes enghreifftiau o arloesi ac arfer da, yng Nghymru a thu hwnt, y gellid eu mabwysiadu a'u rhannu?

Rhaid cydnabod bod nifer o bobol galluog a dawnus yn gweithio yn y sector gyfreithiol yng Nghymru - pobol sydd wedi dymuno aros yng Nghymru, ac sydd yn gweithredu yn dda o fewn eu cymunedau. Ni ddylid felly ystyried gwasanaethau cyfreithiol fel gwasanaethau eilaidd, a'r sawl sydd yn ymgymryd a hwy o safon is. Y mae nifer o bobol profiadol, dygn nad sydd yn denu

goleuadau mesurau canolog o lwyddiant. Y mae sawl enghraifft o bobol sydd yn parhau i weithio ar draul personol oherwydd y bwlch a adawir pe na baent yno.

Y mae rhai enghreifftiau o fusnesau cyfreithiol sydd wedi arbenigo ac wedi darparu gwasanaethau sydd yn diwallu anghenion eu cleiantau tebygol tra'n parhau i weithredu ar raddfa leol. Drwy ddealltwriaeth dda o anghenion, ac argaeledd mewn modd priodol mae'r enghreifftiau hyn wedi creu busnesau llewyrchus. Fodd bynnag, y mae nifer o gwmnïau wedi dibynnu ar wasanaethu pobol nad sydd a llawer iawn o arian, ac felly wedi dibynnu ar nawdd cyhoeddus. Fodd bynnag, Credir fod nifer o fusnesau wedi ei chael yn anodd i addasu drwy fethiant i adnabod eu cleiantau. Er enghraifft, y mae hysbysebu ar y teledu a phecynnau ewyllysiau wedi denu cleiantau oherwydd fod eglurder ymlaen llaw o'r hyn a gynigir, ac mae mynediad yn hawdd (e.e. gwefan yn hytrach na gorfod ffonio swyddfa heb fod yn hollol sicr beth i ofyn amdano). Y mae argaeledd hefyd yn ffactor e.e. dyw gweithdrefn 9-5 Dydd Llun i Ddydd Gwener ddim yn addas mewn diwylliant lle mae pobol mewn swyddi. Fodd bynnag, fe all cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru gynnig gwasanaeth personol, ond fe all fod angen ymwybyddiaeth o sut i wneud hynny - mae'r syniad o weithio mwy o oriau i bobl sydd eisoes wedi eu llethu yn mynd i fod yn ormod o draul, ac yn rhywbeth y bydd nifer o gwmnïau llai yn anfodlon i wneud. Gan hynny, y mae angen arweiniad o beth fyddai yn gweithio o ran adnabod dyheadau cwsmeriaid, cynnig cynnyrch sydd yn atyniadol o ran bod pobol yn gyfforddus efo'r hyn mae nhw'n ofyn amdano. Er enghraifft, y mae delwedd fod cwmnïau cyfreithiol yn ddrudd, ac felly y mae pobol yn anfodlon i ofyn am gyngor cyfreithiol oherwydd eu bod yn bryderus na allant fforddio'r hyn a gynigir. Gall hynny olygu bod pobol yn gyndyn i holi neu i gyrchu cyngor, ac felly mae cyngor arlein lle mae mwy o anonymeiddrwydd yn atyniadol. Gan hynny, y mae angen i gwmnïau yng Nghymru ystyried sut i wneud eu cynnyrch mor hawdd i'w gyrchu a'r hyn a geir ar wefan, ond efo'r fantais o wasanaeth mwy personol. Y mae'r enghraifft o siopa bychan falle yn fodel fyddai yn atyniadol ar gyfer rhai cwsmeriaid (megis y pobydd artisanaid, y cyfreithiwr artisanaid), ond ni byddai hyn yn atyniad i eraill - rhai falle oherwydd dyhead am rywbeth mwy traddodiadol, ac eraill oherwydd dyhead am rhywbeth sydd yn llai eithriol ac unigryw.

Credir nad oes digon o gydlynw effeithiol rhwng y gwahanol sectorau. Er enghraifft, anogir prifysgolion gan ddenu myfyrwyr ac ar fesur canlyniadau ar sail gwaith academiaidd. Fe all fyn fod yn amcan gwahanol iawn i'r hyn a ddyhëir gan y system gyfiawnder o ran hyfforddiant. Gan hynny fe all bod angen ystyried sut i sicrhau fod dyheadau'r gwahanol sectorau yn asio

a'u gilydd. Fodd bynnag, er mwyn i brifysgolion allu mynnu ar safonau ar gyfer lefelau cyfathrebu, presenoldeb, dehongli gwybodaeth, ymchwil, mae angen arweiniad ar hyn gan y proffesiynau, gan mai'r prif yrrwr ar gyfer prifysgolion yw boddhad myfyrwyr, a lefelau llwyddiant, felly mae hynny yn golygu bod angen cynyddu'r nifer sydd yn llwyddo'n dda. Golyga hyn fod angen lefelau uwch o hyfforddi at yr arholiad, ond gwan felly yw myfyrwyr at drosglwyddo eu sgiliau i feysydd eraill.

Tuedda cwrs gradd yn y gyfraith i ganolbwyntio ar y gyfraith fel astudiaeth lenyddol academaidd, a dadansoddi testun cyfreithiol yn unol a gofynion yr SRA. Fodd bynnag, fe all y proffesiwn cyfreithiol fanteisio o ddealltwriaeth sydd ag iddo mwy o ffocws rhedeg busnes a rheoli gweithwyr cyflog, ac felly byddai edrych ar y system drwyddo dra, a chael trosolwg mwy priodol fod yn fanteisiol er mwyn sicrhau nad yw'r gwahanol sectorau yn gweithredu yn groes i'w gilydd, yn datwneud gwaith ei gilydd neu yn ailwneud yr un swyddogaethau.

Er mwyn deall beth sydd yn gweithio yn dda a beth nad sydd yn gweithio yn dda, rhaid meithrin dealltwriaeth o'r hyn sydd yn gyrru gweithdrefnau ac ymddygiad sefydliadau. Er enghraifft, o fewn y Prifysgolion, y mae ffioedd myfyrwyr wedi gwneud prifysgolion weithredu fel busnesau yn hytrach na fel budd cyhoeddus. Heb ymbarél Prifysgol Cymru y mae llai o sgôp ar gyfer cydweithio mewn modd sylweddol ac oherwydd ffactorau megis hierarchaethau prifysgolion newydd, hen brifysgolion, y grwp Russell, y mae gwahanol brifysgolion yn atynnu at sefydliadau nad ydynt o reidrwydd yn sefydliadau yng Nghymru (e.e. Caerdydd yn anelu ei olygon at brifysgolion eraill sydd yn aelodau o'r grwp Russell, a pherthynas Prifysgol Glyndwr a Phrifysgol Caer). Tebyg fod rhyng-blethiadau tebyg o fewn rhannau eraill o'r sector gyfreithiol, ac felly y mae angen deall yr rhain er mwyn deall paham fo rhai gweithdrefnau fel ag y mae nhw, a beth sydd angen newid er mwyn symud yr ymddygiadau hynny.

2. Beth yw'r rhwystrau economaidd, cymdeithasol, daearyddol, technolegol, cyfansoddiadol ac o fath arall sy'n rhwystro gwelliannau, a sut y gellid eu goresgyn?

Economaidd

Y mae gwasgedd economaidd yn effeithio ar ardaloedd, cymdeithasau a sefyllfaoedd ymylol llawer iawn yn waeth, gan bod gwasanaethau, cysylltiadau trafnidiaeth ayyb yn crebachu i wasanaethu lleoliadau lle mae trwch digonol o bobol i dalu am y gwasanaethau (naill ai nifer fechan o bobol cyfoethog neu nifer fawr iawn o bobol sydd yn dlotach). Oherwydd daearyddiaeth a thlodi cymharol, y mae gwasgedd economaidd felly yn effeithio ar Gymru yn sylweddol. Golygir felly bod angen sicrhau fod lleihad yn y rhwystrau i ffyniant, ac anogaeth

mewn datrysiadau amgen. Fe all hyn fod ar ffurf manteision neu ddisgowntiau ariannol, neu rhyw fath o foratoriwm ar dreth. Fe all hefyd fod ar ffyrdd annog datrysiadau amgen e.e. gwaith pro bono.

Cymdeithasol

Y mae nifer o ffactorau cymdeithasol wedi newid dros yr ugain mlynedd diwethaf. Y mae llai o hyder i negodi sefyllfaoedd dros y ffon neu wyneb yn wyneb a dieithriaid sydd yn golygu bod tebygrwydd fod pobl yn fwy tebygol o fod yn anghyfforddus i gysylltu a chwmmi cyfreithwyr. Ar y llaw arall y mae mwy o barodrwydd i brynu nwyddau a gwasanaethau ar-lein. Hefyd y mae natur y gweithle yn golygu nad yw patrwm cyngor cyfreithiol traddodiadol mewn swyddfa 9-5 yn addas. Serch hynny, y mae cyngor yn fater lle mae cyswllt wyneb yn wyneb yn fuddiol gan fod pobl yn aml yn chwilio am gyngor ar rywbeth y tu hwnt i'r hyn sydd yn destun y cysylltiad cychwynol. Gan hynny, y mae angen i ystyried sut i wneud cyngor cyfreithiol yn rhywbeth sydd yn llai brawychus ac anghyfarwydd i bobol. Yn aml ystyrir mai 'neuaddau cymunedol' yw'r datrysiad i hyn, ond bydd rhai pobol mewn cymdeithas bydd yn ymwneud a neuadd gymunedol, ac felly y mae angen gwell dealltwriaeth o ba gyd-destunau cymdeithasol fyddai yn galluogi pobol i feddwl 'wel mae cyngor cyfreithiol yr un mor hawdd a'r peth yma [beth bynnag fo hynny] rwy'n wneud bob dydd.'

Daearyddol

Y mae cau llysoedd mewn ardaloedd gwledig wedi cael effaith ar fynediad i gyfiawnder, ac hyd yn oed mewn trefi o faint sylweddol (Caerdybi, Llangefni, Y Drenewydd, Caerfyrddin) y mae cau llysoedd wedi creu sefyllfa lle mae mynediad at gyfiawnder yn anodd, yn enwedig oherwydd cysylltiadau ffyrdd gwael, a phrinder cludiant cyhoeddus sydd yn cysylltu ardaloedd. Er enghraifft, ar gyfer trigolion Ynys Môn, nid oes cysylltiadau cludiant cyhoeddus a Chaernarfon, oni bai i berson newid bws ym Mangor, ac efallai hefyd yn Amlwch neu Llangefni. Anaml yw'r bysiau ac felly mae cludiant yn problemus i bobol, yn enwedig ar gyfer mater bychan na fyddai'n cymryd llawer o amser, ond mae cymhlethdod y siwrne yn gwneud tasg syml llawer iawn yn anos. Y mae hyn yn broblem sydd yn effeithio ar, er enghraifft, troseddwyr ifainc, gan nad ydynt yn gyrru, ac yn aml ddim yn meddu ar yr adnoddau (car, cost cludiant) na'r gefnogaeth gan rieni. Y mae methiant i drefnu darpariaethau ar sail agosrwydd daearyddol yn cymhlethu sefyllfaoedd. Er enghraifft, er bod Aberystwyth o fewn yr un

awdurdod lleol ac Aberteifi, y mae'n haws i drigolion Aberteifi deithio i lysoedd yn Llanelli neu Abertawe nag i Aberystwyth. Yn Ynys Môn, er mai Caernarfon yw'r llys agosaf ar gyfer trigolion Caergybi, byddai'n rhwyddach i berson deithio i Landudno nag i Gaernarfon.

Technolegol

Ni theimlaf fod gwasanaethau ar lein yn diwallu hyn, gan fod hyd yn oed cyfarfodydd drwy fideo gynadledda yn creu anawsterau o ran cyfathrebu. Gan hynny, y mae angen sicrhau fod gwasanaethau yn symudol ac yn cymryd i ystyriaeth sut mae llwybrau teithio yn gweithio. Er enghraifft, yn Aberystwyth, y mae llwybrau cludiant cyhoeddus yn gweithio yn well i Fachynlleth, y Drenwwydd, Caerdydd a Chaerfyrddin nag y'n nhw i Landrindod, Tregaron ac Abertawe. Y mae amgen sicrhau fod gwasanaethau hefyd wedi eu cydlynu, fel bod modd gwneud pob peth o dan un to, ac ar yr un dyddiad.

Y mae sefyllfa'r Gymraeg yn creu sefyllfaoedd technolegol cymhleth. Er enghraifft, y mae rhai ffynonellau ar lein ar gael yn ddwyieithog ond ceir anawsterau. Yn aml ni chaiff y platfform Cymraeg ei ddiweddarau mor aml. Hefyd, yn aml nid yw'r cyfieithiad Cymraeg o safon da, ond oherwydd bod technegydd yn gweld fersiwn Saesneg, nid yw'n gallu datrys yr anhawster. Gan hynny, y mae dibyniaeth ar dechnoleg yn gallu bod yn broblemus yn y Gymraeg, a byddai angen i blatfformau cynghori a ddatblygir gynllunio ar gyfer defnydd drwy'r Gymraeg o'r cychwyn yn hytrach na bod yn ychwanegiad hwyr.

Serch hynny, fe all fod sgôp i ddatblygu teclynnau diagnosis ar gyfer problemau cyfreithiol (megis gwefan NHS direct) a all arwain pobol at ffynonellau cyngor priodol. Fodd bynnag, yr anhawster efo'r gyfraith yw y gall problem gyfreithiol fod a sawl achos tebyg, ac felly mater o archwiliad manwl o'r geiriad yw'r hyn sydd yn cynnig datrysiad. Hefyd, un o'r anfanteision a nodir o wefannau cyngor ar iechyd yw tueddiad gan bobol i hunan-adnabod cyflyrau, ac fe all hyn ddylanwadu ar gyngor cyfreithiol yn yr un modd. Ceir tueddiad hefyd i greu sefyllfaoedd lle mae gwasanaeth ar lein yn cymryd lle gwasanaeth wyneb yn wyneb - yn hytrach na bod yn opsiwn ychwanegol.

3.Pa broblemau sy'n wynebu'r bobl sy'n gweithio o fewn y system gyfiawnder yng Nghymru (gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth erlyn, y llysoedd, y carchardai a'r gwasanaeth prawf) a'r bobl sy'n cael eu heffeithio ganddynt?

Y mae newidiadau mewn gwasanaethau cyfreithiol a Chymorth Cyfreithiol wedi golygu nad yw gwasanaethau cyfreithiol lleol ar gael mor hawdd. Golyga'r toriadau mewn gwasanaethau cyfreithiol nad oes dewis o gymorth cyfreithiol ar gael mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig mewn materion cynhennus. Y mae dadreoli gwasanaethau cyfreithiol wedi golygu bod darparwyr anrhaddodiadol yn darparu pecynnau cyfreithiol, ond yn aml iawn nid oes ganddynt unrhyw ymwybyddiaeth o faterion megis yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawriad llys. O ran gwasanaethau, y mae toriadau wedi golygu nad oes modd cynnig gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig ac mae canoli sylweddol wedi digwydd, sydd yn anfanteisio ardaloedd gwledig mewn modd anghymesur.

Y mae diwylliant mesurau cyson o foddhad a monitro perfformiad wedi creu sefyllfa o ofn mewn sawl maes gwaith, lle mae pryderon ynghylch y bygythiad o ymgyfreitha, a sustemau gwerthuso perfformiad wedi cyfrannu at sefyllfaoedd lle mae prinder staff, a'r staff sydd yn bresennol yn ceisio cyflawni gormod o wahanol orchwylion wedi arwain at sefyllfa lle mae sicrhau bod prosesau wedi cael ei dilyn yn drylwyr yn hynod fregus. Y mae sawl gweithdrefn wedi eu cymhlethu oherwydd bod systemau newydd wedi eu cyflwyno a hynny heb beiliotio digonol. Mewn sawl maes y mae newidiadau byrbwyll wedi eu cyflwyno, heb gweledigaeth ddigon pell gyrhaeddol o'u oblygiadau. Gan hynny, y mae angen i unrhyw ddiwygiadau i'r system anelu at symleiddio argaeledd gwasanaethau, ac at sicrhau fod modd gwirio os yw ymrwymiad at ofynion prosesau wedi digwydd yn briodol. Er enghraifft, pan oedd Uned Gymraeg ar gyfer y Gwasanaeth Llysoedd, roedd eglurder ynghylch pwy ddylid darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Ers i hyn gael ei gollu, ceir llai o eglurder ynghylch pwy ddylai sicrhau'r gwasanaeth Cymraeg, ac felly y risg yw na fydd neb yn gofalu am hynny.

4.A yw'r system gyfiawnder yng Nghymru ar hyn o bryd yn darparu mynediad i bawb sydd angen y gwasanaethau, gan gynnwys cyngor? Sut fydddech chi'n gwella mynediad at gyfiawnder yng Nghymru?

Y mae'r ddarpariaeth yn gyffredinol wael. Ychydig iawn o gwmnïau lleol sydd ar gael ac felly y mae diffyg dewis ac argaeledd mewn darpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Er enghraifft, y mae myfyrwyr yn aml yn gofyn am gyngor cyfreithiol gan ddarlithwyr oherwydd na allant fforddio talu cyfreithwyr, a nid oes gwasanaethau pro bono ar gael. Mae cost a diffyg ariannu

digonol ar wasanaethau pro bono (gan gynnwys asiantaethau gwirfoddol megis Cyngor ar Bopeth) yn golygu fod bylchau sylweddol mewn darpariaeth sydd ar gael. Oherwydd toriadau mewn Cymorth Cyfreithiol, y mae nifer o gwmnïau wedi rhoi'r gorau i gynnig rhai gwasanaethau. Hefyd, y mae cwmnïau mawrion yn gallu hysbysebu e.e. gwasanaethau ysgrifennu ewyllys am ddim. Er bod cwmnïau llai hefyd yn cynnig gwasanaethau o'r fath, nid yw pobol mor ymwybodol ohonynt oherwydd y methiant i allu hysbysebu. Er mwyn gwella mynediad at gyfiawnder felly, y mae angen ariannu gwasanaethau cynghori fforddiadwy neu am ddim. Yn ardal Ceredigion er enghraifft, y mae argaeledd Cyngor ar Bopeth yn gyfyng ac yn dibynnu ar nifer fechan o wirfoddolwyr. Y mae clinigau cyfraith wedi gorfod cau oherwydd diffyg arian, ac mae pwysedd sylweddol ar wasanaethau cyfreithiol ar faterion megis prydlesi, lle mae pobl sydd yn rhentu (gan gynnwys myfyrwyr) yn methu fforddio cyngor gan gyfreithiwr, ac felly yn ildio i sefyllfa anfoddfaol. Y mae'n debyg y caiff hyn ei adlewyrchu mewn sawl ardal wledig lle nad oes darpariaeth o gyngor cyfreithiol digonol na fforddiadwy.

5.Pa effaith mae datganoli wedi'i chael ar y system gyfiawnder yng Nghymru? Pa effaith fydd datganoli yn ei chael yn y dyfodol, yn eich barn chi?

Y mae datganoli wedi cael sawl effaith. Yn gyntaf, nid oes ymwybyddiaeth ddigonol o gyfraith Cymru – ac yn aml dallineb bwriadol, yn enwedig gan gyfreithwyr y tu allan i Gymru. Gan hynny, y mae diffyg ymwybyddiaeth o agweddau o gyfraith Cymru, gan gynnwys yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawriadau cyfreithiol.

Serch hynny, y mae hefyd wedi creu cyfle ar gyfer arbenigo mewn cyfraith Cymru gan rai, ond mae yn drueni fod gymaint o ddibyniaeth ar gyngor cyfreithiol o du allan i Gymru, gan unigolion a chan gyrff cenedlaethol. Fe ddylid bod mwy o feithrin o falchder ac arweiniad o hynny gan fudiadau cenedlaethol, gan fod hynny yn dylanwadu ar y cyhoedd.

Y mae datganoli hefyd wedi ei gymhlethu oherwydd bod Cymru yn ddeddfwrfa ond nid yn awdurdodaeth. Credir bod hynny yn creu sefyllfa sydd yn cyfrannu at y ddelwedd bod cyfraith Cymru yn llai pwysig, a phetai awdurdodaeth ar wahân, byddai gwell ymwybyddiaeth mai cyfraith Cymru sydd yn berthnasol - megis y sefyllfa a geir yn yr Alban. Fodd bynnag, y mae risg o greu awdurdodaeth Gymreig, gan bod proffesiwn y bar yng Nghymru a Lloegr yn parhau fod yn Llundain-ganolog. Gan hynny, byddai pryder y byddai barnwyr a bargyfreithwyr yn gweld awdurdodaeth Gymreig fel rhywbeth eilaidd, neu fel cam ar yr ysgol i lwyddiant. Gan

hynny, y mae angen ystyried sut i sicrhau y byddai awdurdodaeth Gymreig yn wahanol ond yn gydradd yn hytrach nac yn waddod ar gyfer darpariaethau o safon is.

Y mae datganoli hefyd wedi creu angen - sydd mewn rhai sefyllfaoedd wedi ei ddiwallu, neu wedi ei ddiwallu yn rhannol, gan arbenigedd ar gyfraith Cymru. Fodd bynnag, y mae angen adnabod a oes digon o arbenigedd ar faterion sydd yn ymwneud a chyfraith ddatganoledig e.e. ym maes addysg a iechyd a'r platfformau ar gyfer unioni cam yn y meysydd hynny, ac yn gynyddol yn y meysydd lle mae cyfraith Cymru yn datblygu e.e. gofal a llesiant, hawliau'r Gymraeg a chartrefi.

6.A fyddai modd i wasanaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â chyfiawnder a darpariaeth leol o gyngor cyfreithiol gael eu trefnu a'u cydlynu'n well gyda'r heddlu, y gwasanaeth erlyn, y llysoedd, carchardai a'r gwasanaeth prawf?

7.A ddylid gwneud newidiadau i'r ffyrdd y mae'r heddlu, y gwasanaeth prawf a charchardai yn mynd i'r afael â'u tasgau? Beth y gellid ei wneud i wella diogelwch cymunedol, llesiant a chydlyniant cymunedol, a lleihau nifer yr achosion o droseddu? Beth y gellid ei ddysgu gan wledydd eraill lle mae cyfraddau troseddu a charcharu yn is?

8.Pa effaith mae'r ymrannu rhwng cyfraith Cymru a Lloegr yn ei chael ar ddedfrydau? Pa effaith ydych chi'n ei rhagweld yn y dyfodol? A ddylai Cymru roi trefn ddedfrydu wahanol i Loegr ar waith? Os felly, pa wersi y gellid eu dysgu gan awdurdodaethau eraill?

Mater sy'n effeithio ar ddedfrydu mewn modd sylweddol yw'r ffaith nad yw dedfrydiadau e.e. o godau PACE wedi ei cyfieithu, fel nad oes ffurf safonol ar y dedfrydau hyn.

9.Beth yw gallu'r system gyfiawnder yng Nghymru ar gyfer ymateb i Brexit?

Er y bydd y sustem gyfreithiol yn Nghymru yn fwy tebygol o allu goroesi sefyllfa lle mae cwmnïau mawrion yn cau canghennau, gall Brexit greu sefyllfa lle byddai mwy o angen cyngor

ar gyfraith mewnfudo a dinasyddiaeth, mwy o gyngor ar gyfraith cyflogaeth a mwy o gyngor ar agweddau o gyfraith amaeth.

10.Pa gamau sydd angen eu cymryd yn eich barn chi i hwyluso newid cadarnhaol yn y system gyfiawnder yng Nghymru?

Y mae angen sicrhau mwy o wasanaethau cyfreithiol mewn ardaloedd gwledig er enghraifft drwy ddarparu llysoedd symudol mewn trefi lle mae llysoedd wedi cau dros y 20 mlynedd diwethaf. Y mae hefyd angen meithrin darpariaeth gyfreithiol mewn ardaloedd gwledig er mwyn sicrhau fod ystod digonol o gyngor ar gael hyd yn oed mewn materion cynhennus. Y mae angen gweithio gyda cwmnïau cyfreithiol er mwyn creu busnes newydd sydd yn addas ar gyfer y cwmni penodol – dyw gweithdrefnau sydd yn addas ar gyfer cwmnïau mawrion sydd wedi eu trefnu ar fodolau archfarchnad (pob cangen yn unfath) ddim yn addas. Y mae cwmnïau cyfreithiol yn ymwybodol o beth yw'r sialensiau (gallu cwmnïau mawr i gynnig pecyn o wasanaeth unfath am bris rhad, gallu i hysbysebu'n genedlaethol, gwasanaeth ar-lein) ddim yn addas nac yn atyniadol i gwmnïau llai, ac felly mae angen eu hannog i barhau i gynnig gwasanaeth wedi ei deilwra'n gelfydd ond mewn modd sydd yn haws i'w ganfod.

Y mae angen hefyd gwella mynediad at gyfiawnder, a gall technoleg helpu yn hynny o beth, er y mae cam-ddealltwriaeth go sylweddol gan y proffesiwn cyfreithiol o'r gwahaniaeth rhwng 'technoleg' a 'deallusrwydd artiffisial.' Fe all technoleg helpu gyda mynediad i sawl gwasanaeth e.e. diagnosis o broblemau cyfreithiol, taliadau, cyfarfodydd a chynghor, ond nid deallusrwydd artiffisial mo hyn. Serch hynny y mae sgôp i ddatblygu technegau dysgu drwy beiriant (machine learning) (dwyieithog) a all fod yn fuddiol ym maes y gyfraith, ond rhaid bod yn ymwybodol o gyfyngiadau hyn. Er enghraifft, eglura Huws a Finnis (On computable numbers with an application to the Alan Turing problem Huws, C. & Finnis, J. 2017 In : Artificial Intelligence and Law.25, 2, p. 181-203) fod beth yw'r gyfraith yn dibynnu nid yn unig ar eiriad statud ond hefyd ar wleidyddiaeth, personoliaethau, agweddau cymdeithasol, ffactorau economaidd, a chfyuniad o ddigwyddiadau), ac felly rhaid bod yn ofalus rhag gorbwysleisio grym deallusrwydd artiffisial yn y gyfraith.

11. Sut y gellid hybu cryfder a chynaliadwyedd y sector cyfreithiol yng Nghymru? Sut y gellid manteisio i'r eithaf ar ei gyfraniad i ffyniant Cymru?

Credir fod nifer o gwmnïau llai – yn enwedig cwmnïau teulu yn gweld anawsterau i gystadlu efo cwmnïau sydd yn hysbysebu yn genedlaethol ac i ddatblygu meysydd gwaith newydd nad ydynt yn ddibynnol ar Gymorth Cyfreithiol. Oherwydd cost a baich ail-gyfeirio y mae'n debygol bod nifer o gwmnïau llai yn gweld hyfforddiant fel gormod o risg a chost. Gan hynny, y mae angen datblygu datrysiadau effeithiol, syml i'w gweinyddu a'u datblygu, hawdd i'w mew-ffrydio i mewn i weithdrefnau presenol, ac sydd ddim yn cynnwys elfen sylweddol o risg. Er enghraifft, roedd ymgais rai blynyddoedd yn ol i annog cwmnïau yng Nghymru i ymgymryd a gwaith cwmnïau o Loegr, ac roedd methiant i ddeall paham nad oedd hyn yn atyniadol. y gwirionedd yw bod cwmnïau bychain eisoes yn gweithio yn sylweddol ar eu cleiantau presennol, ac felly roedd yr awgrym o ymgymryd a mwy o waith efo'r un nifer o staff yn frawychus, ac felly ddim yn atyniadol. Yn yr un modd, fe allai arbenigwyr argymell 'marchnata' ond y mae sawl rhwystr i hyn gan gynnwys gwrthwynebiad i briodolrwydd marchnata (oherwydd y ddelwedd o gyfreithwyr fel stelcwyr ambiwlans), y gost a'r risg o ymgyrch farchnata aflwyddiannus, a diffyg ymwybyddiaeth o beth fyddai yn marchnata effeithiol.

Credaf fod angen cynnal sgysiau iawn gyda'r sector gyfreithiol. Nid yw trafodaeth gyffredinol o reidrwydd yn fuddiol, gan fod cwmnïau yn debygol o fod yn awyddus i gelu problemau rhag eu cystadleuwyr. Fodd bynnag, byddai hynny yn galluogi cwmnïau i adnabod a gwyntyllu eu problemau a beth ellir eu cynnig fel datrysiadau. Fodd bynnag, fe all y datrysiadau hyn fod yn wahanol, ddweder i gwmni o fargyfreithwyr yng Nghaerdydd o gymharu a ddweder, cwmni o gyfreithwyr ym Machynlleth. Fe all hyn olygu meithrin dealltwriaeth o natur y busnes, eu pryderon, a datrysiadau penodol. Fodd bynnag byddai angen iddo fod yn arbenigol, ac yn unigol er mwyn cynnig datrysiadau priodol sydd yn deall beth yw adnoddau cwmni, beth yw ei farchnad, a beth yw'r rhwystrau. Er enghraifft dyw datrysiad fel "denwch mwy o gwsmeriaid" neu "cynigiwch gyngor ar-lein" ddim yn fuddiol os nad oes gan y cwmni yr adnoddau i wneud hynny. Fodd bynnag, fe allai cyngor megis "darperwch becyn cynnig ewyllysiau gyda chyfweliad ac ewyllys wedi ei ddarparu am ffi benodol a hysbyseb wch e fel hyn" fod yn ddatrysiad hawdd a chllir ar gyfer cwmni sydd yn arbenigo yn bennaf ar gyfraith profiant. Ar gyfer Cymru fodd bynnag, byddai'n rhaid i hyn fod yn atyniadol o ran fforddiadwyedd ac argaeledd, ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac yn ffitio o amgylch patrymau gwaith cyfreithwyr

- er mor hawdd fyddai cynnig 'diwrnod yn Llandrindod am £500 y pen' nid yw hyn yn mynd i fod yn ddatrysiad addas ar gyfer cyfreithwyr na all adael eu dyletswyddau yn y swyddfa.

12.I ba raddau mae'r cwricwlwm prifysgol a'r cyrsiau galwedigaethol a datblygu proffesiynol presennol yn adlewyrchu'r gyfraith yng Nghymru, a'r angen i fynd i'r afael â'r chwyldro digidol, a sut y dylid eu datblygu ymhellach?

Oherwydd bod y Prifysgolion yn tueddu i gyrchu marchnadoedd rhyngwladol, ceir tueddiad i ddiystyru cyfraith Cymru fel maes. Arweinir hyn gan ofynion yr SRA a'r Bar, nad ydynt yn gofyn am ddealltwriaeth o gyfraith ddatganoledig. Fe'i arweinir hefyd gan faterion megis REF sydd hefyd yn pwysleisio natur ryngwladol gwaith ymchwil, ac felly mae cyfraith gwlad (sydd yn gynhennid yn bwnc ag iddo ffiniau cenedlaethol) a chyfraith Cymru yn bynciau nad ydynt yn cyflawni'r mesurau o effaith rhyngwladol. Y mae rhai Prifysgolion yn mynnu bod gwaith wedi ei gyhoeddi mewn cylchgronau penodol a dylanwadol, ond eto dyw'r rhain ddim yn dangos ymwybyddiaeth o gyfraith Cymru, ac felly er mor bwysig a safonol yw'r gwaith, nid yw'n llwyddo i gyflawni'r mesurau sydd yn dylanwadu ar lwyddiant adrannau a phrifysgolion oherwydd diffyg brwdfrydedd i'w cyhoeddi, a chyrhaeddiant cyfyngedig ei berthnasedd.

Hefyd, oherwydd nad yw gwerslyfrau cyfraith yn cyfeirio rhyw lawer at gyfraith Cymru, mae myfyrwyr yn anawyddus i'w astudio. Y mae addysg cyfrwng Cymraeg hefyd yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n ychwanegol i'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Gan hynny, pan fo adrannau yn torri staff, caiff y ddarpariaeth Gymraeg ei ystyried fel rhywbeth y gellid ei gollu'n haws gan ei fod yn atynnu cynulleidfa lai.

Y mae llawer o ffactorau sydd yn effeithio ar alluedd y Prifysgolion i adlewyrchu'r gyfraith yng Nghymru gan gynnwys:

- 1. Capasiti staffio. Oherwydd bod prifysgolion yn gorfod diwallu nifer o anghenion (myfyrwyr sydd am gymhwyso fel cyfreithwyr, myfyrwyr nad ydynt am gymhwyso fel cyfreithwyr, myfyrwyr o Gymru, y DU a myfyrwyr rhyngwladol, y mae'n aml yn fater o ddiwallu anghenion y nifer fwyaf o bobol, yn enwedig pan bo prifysgolion yn torri lefelau staffio. Gan hynny y mae materion Cymreig yn aml yn cael eu hystyried fel rhywbeth lleiafrifol, ac felly nid yw Prifysgolion yn fodlon i gynnig darpariaeth eang ar y pwnc, gan nad yw'n cael ei weld fel rhywbeth fyddai yn atyniadol i fyfyrwyr o tu allan i Gymru. Hefyd, gan mai busnes canolog prifysgolion yw myfyrwyr, oni bai bod*

mantais ariannol sylweddol i gynnig cyrsiau CPD, yn aml nid oes modd blaenoriaethu hyn er mwyn diwallu anghenion tu draw i anghenion myfyrwyr.

2. Poblogrwydd

Oherwydd mesuriadau o foddhad myfyrwyr, rhaid i brifysgolion gynnig modiwlau sydd a lefelau boddhad a llwyddiant uchel. Tuedda modiwlau ar gyfraith cyhoeddus fod yn llai poblogaidd gan fyfyrwyr, ac mae myfyrwyr yn aml yn astudio'r gyfraith er mai gwleidyddiaeth neu astudiaethau'r cyfryngau sydd wir yn mynd a'u bryd, ac felly mae pwnc sydd yn gofyn dealltwriaeth dechnegol a manwl o'r gyfraith - megis cyfraith gyhoeddus yn aml yn amhoblogaidd, ac o'r herwydd nid oes fawr o gymhelliant i ddatblygu modiwlau dewisol yn y meysydd hyn. Gan hynny, tuedda myfyrwyr ganfod bod modiwlau sydd yn gofyn dealltwriaeth ddofn o gyfraith fanwl yn fwy anodd, ac o'r herwydd y mae'r modiwlau hyn yn llai poblogaidd.

3. Agweddau

Y mae prifysgolion yn awyddus iawn i ddenu myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr o Loegr. Credir fod nerfusrwydd felly am roi gormod o bwyslais Cymreig, oherwydd pryderon ar yr effaith ar recriwtio ryngwladol gan fod myfyrwyr yn ymwybodol na fyddai hyn yn ymddangos mewn cwricwlwm a gynigir yn Lloegr, ac felly Credir fod ofn ynghylch 'pa wybodaeth nad y'n nhw'n gael oherwydd eu bod yn dysgu am gyfraith Cymru.

4. Unigolion

Parheir i fod agweddau ymysg unigolion ynghylch gwerth cyfraith Cymru – y mae'r hyn sydd o fewn y cwricwlwm yn dibynnu ar unigolion, ac felly mewn rhai modiwlau fe ellid cyflwyno mwy o elfen gymhariaethol sydd yn cynnwys Cymru, lle mae modiwlau eraill yn canolbwyntio ar gyfraith Lloegr yn unig.

5. Adnoddau

Oherwydd bod y sistem addysg wedi creu fframwaith addysgiadol eithaf cul, lle caiff myfyrwyr eu hyfforddi at y prawf, tuedda myfyrwyr ddarllen gwerslyfrau yn hytrach na ffynonellau cynradd. Hefyd oherwydd bod y sistem addysg wedi creu sefyllfa lle mae angen creu fframweithiau marcio penodol, nid oes anogaeth i ymchwilio yn eang er mwyn cynnig dealltwriaeth newydd. Y mae myfyrwyr yn dueddol o ganfod deunyddiau cynradd ac erthyglau yn rhy anodd i'w darllen, ac felly tuedda ymchwil i ganolbwyntio ar yr hyn sydd yn y cyfryngau. Gan hynny,

y mae'r ffocws mewn gwerslyfrau ar gyfraith Lloegr yn golygu bod myfyrwyr yn aml yn dra ofnus o ddeunyddiau mwy eang, ac felly oni bai bod unigolion a diddordeb penodol, tueddir i

anwybyddu cyfraith Cymru. Gan hynny, y mae angen adnoddau addas ar gyfer datblygu dealltwriaeth o gyfraith Cymru. Serch hynny, y mae peth ddeunydd mewn

rhai modiwlau gan fod meysydd megis cyfraith yr amgylchedd, ac agweddau o droseddeg yn cynnwys astudiaethau achos sydd a cyd-destun Cymreig, ac felly mae myfyrwyr yn gallu gweld mwy o berthnasedd iddo. Fe all hyn fod oherwydd bod troseddeg yn pwysleisio mwy ar y troseddwr a'r dioddefwr, ac felly mae iddo berthnasedd mwy lleol (mae testun y pwnc yn cynnwys pobol sydd yn byw yn yr un dref a fi, neu pobol sydd yn debyg i fy nheulu fi). Mae'r system gyfreithiol fodd bynnag yn cynnwys bobol a phethau mwy estron - drafftwyd deddfau, barnwyr, gwleidyddion, ac felly mae'r astudiaeth leol yn cynnig llai o gymhelliant at berthnasedd.

Ar hyn o bryd y mae peth ansicrwydd ynghylch beth fydd ffurf gradd yn y gyfraith yn dilyn cyflwyniad y Solicitors' Qualification Examination. Oherwydd bod modd i brifysgolion ddarparu modiwlau sydd yn diwallu anghenion eu myfyrwyr, fe allai arweiniad o ran dyheadau'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru (gan gynnwys cyfraith ddatganoledig) fod yn fuddiol - os yw, ddweder, Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mynegi bod angen am ddealltwriaeth well o gyfraith Cymru er mwyn cymhwyso fel cyfreithwyr, yna bydd mwy o anogaeth ar brifysgolion i deilwra eu cwrs gradd newydd i adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, fe all modiwl o'r fath fod yn atyniadol fel cwrs sydd yn sefyll ar ei ben ei hunan fel cwrs dysgu-ar-waith neu CPD, ond o fewn fframweithiau presennol sefydliadau nid oes modd cynnig modiwl sydd yn fodiwl is-raddedig ac ôl-raddedig ar yr un pryd.

13. Beth yw'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer y Gymraeg yn y system gyfiawnder ac addysg gyfreithiol yng Nghymru? Sut y dylid gwella darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn y system gyfiawnder ac addysg gyfreithiol yng Nghymru?

Ar hyn o bryd mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y ddau faes yn cael ei drin fel rhywbeth eilaidd nad yw'n cael ei gynllunio o'r cychwyn. O fewn y system gyfreithiol y mae angen creu cyfleoedd i bobol siarad Cymraeg, gan bod bwlbh yn dueddol o fod rhwng galluedd ar lafar a galluedd ysgrifenedig. Y mae'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg hefyd yn gorfod golygu fod dealltwriaeth o'r hyn a ddywedir yn Gymraeg, heb orfod dibynnu ar gyfieithu. Y realiti yw bod defnyddio'r Gymraeg ar hyn o bryd yn golygu cyfieithu, a'r newid ystyr mae hynny'n olygu. Hefyd mae'n golygu oedi, ac yn aml dyw dogfennau a gwefannau ddim yn cael eu diweddarau. Hefyd y mae ffynonellau ar-lein yn aml yn gofyn am ddewis iaith sydd yn sianelu defnyddwyr i un iaith neu'r llall, ac er bod manteision i hyn, nid yw'n ystyried fod llawer o bobol yn defnyddio cyfuniad o'r Gymraeg a'r Saesneg ac yn amnewid rhwng y ddau gan ddibynnu ar gyd-destun, pwnc, a sefyllfa. Y mae gwaith Catrin Fflur Huws (An Empirical Study into the Use of the Welsh Language in the Courts in the Twenty-first Century, PhD, Prifysgol Cymru Aberystwyth, 2006) yn cynnig rhai awgrymiadau o beth yw'r rhwystrau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun cyfreithiol. Y mae hyn yn cynnwys:

- a. defnydd o'r Gymraeg fel gwyrriad o'r norm cyfreithiol*
- b. dibyniaeth ar gyfieithu*
- c. mynediad at ddefnydd o'r Gymraeg drwy gyfrwng ysgrifenedig*
- d. diffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar*
- e. diffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau llai ffurfiol a'r cyswllt cyntaf e.e. cynghorwyr cyfreithiol, yr heddlu, sesiynau prawf ayyb*
- f. methiant i adnabod amgylchiadau lle mae angen gwasanaeth Cymraeg er mwyn annog defnydd mewn modd ystyrllon. Ceir trafodaeth bellach o hyn yn Huws (2017) 'Critical Mass and Insecurity in Minority Language Policy' 25(1) International Journal of Minority and Group Rights.*

O fewn y system addysg gyfreithiol yng Nghymru y mae darpariaeth yn y Prifysgolion (80 credyd y flwyddyn ym Mhrifysgolion Caerdydd, Bangor ac Aberystwyth a 40 yn Abertawe). Serch hynny, darniog yw'r ddarpariaeth gan fod diffyg ystod priodol o ddeunyddiau, dibyniaeth ar nifer fechan o staff, a hynny mewn sefyllfa fregus i'w gynnal os oes salwch, diswyddiadau neu absenoldeb. Nid oes digon o sgôp i gynnig cyrsiau gradd yn eu cyfanrwydd

yn Gymraeg, ac felly tuedda'r ddarpariaeth fod yn ddarpariaeth ddwyieithog (e.e. darlithoedd Saesneg a seminarau Cymraeg). Gall hyn olygu na chaiff myfyrwyr Cymraeg disglair ddigon o gyfle i finio eu doniau yn erbyn pwll digonol o fyfyrwyr galluog eraill. Nid oes digon o ddarpariaeth ar lefel LPC sydd yn arwain at ddefnydd mwy eang o fewn y proffesiynau cyfreithiol – elfen ddewisol ac ychwanegol yw'r ddarpariaeth Gymraeg wedi bod a hynny mewn cyd-destunau cyfyng megis eiriolaeth.

Credir fod y ddarpariaeth yn fregus. Ar hyn o bryd y mae anogaeth ariannol drwy ysgoloriaethau a nawdd y Coleg Cymraeg. Golyga hyn fod prifysgolion yn awyddus i ddarparu yn eang er mwyn bod yn gystadleuol. Serch hynny, y mae peth wrthwynebiad wrth i adnoddau (oriau dysgu) staff yn cael eu rhoi i leiafrif o fyfyrwyr, ac felly yn rhoi baich ychwanegol ar staff eraill. Gan hynny, oni bai bod cymhelliant ariannol, byddai adrannau a phrifysgolion yn debygol o benderfynu bod yr oriau hynny o amser staff a ddefnyddir ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg yn fwy gwerthfawr ar gyfer diwallu anghenion grŵp mwy, neu farchnad ychwanegol.

Serch hynny, er bod darpariaeth ar gael mewn sawl lleoliad, y mae bylchau yn bodoli. Er enghraifft, y mae llai o ddeunyddiau ar wahân ar gyfer myfyrwyr sydd yn astudio yn Gymraeg. Seminarau sydd ar gael yn Gymraeg, ac fe all y ddarpariaeth fod yn fwy cyfyng os caiff y seminarau eu cynnal gan aelod staff llai profiadol, mewn sefyllfa lle nad yw cydlynedd y modiwl yn cofio fod fersiwn Gymraeg.

Awgrymir mwy o gydweithio rhwng sefydliadau, ond mae sawl rhwystr sefydliadol i hyn. Er enghraifft, os yw myfyriwr yn mynychu Prifysgol A, mae Prifysgol B yn gwrthwynebu darparu addysg i'r myfyriwr hwnnw gan nad yw'r myfyriwr yn talu ffioedd i Brifysgol B. Ceir gwrthwynebiad gan y myfyriwr hefyd, gan ei fod yn talu ffioedd i A, ond yn cael darlithoedd drwy linc fideo gan B, sydd yn ddarpariaeth llai boddhaol na chael darlithoedd 'byw.' Ceir hefyd anawsterau dwys o ran prosesau sefydliadol megis diwallu gofynion Ansawdd, ffitio modiwl o brifysgol A i fewn i fframwaith cwricwlwm prifysgol B (er enghraifft Prifysgol A yn cynnig modiwl 10 credyd yn Gymraeg, a phrifysgol B yn gweithredu ar fframwaith o fodiwlau 20 credyd). Lle mae myfyrwyr yn anfodlon efo'r ddarpariaeth, mae'n anodd iawn canfod datrysiaid (ni all Prifysgol A feirniadu safonau addysgu Prifysgol B ond ychwaith ni all ddatrys y sefyllfa yn foddhaol).

Ceir hefyd bwlch rhwng y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cwrs gradd a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y maes gwaith. Y mae cwrs gradd yn pwysleisio sgiliau ysgolheictod ffurfiol, ac fe all hynny fod yn angenrheidiol mewn rhai gyrfaeodd cyfreithiol (drafftio deddfau). Fodd bynnag, mewn meysydd eraill efallai bod mwy o sgiliau llafar llai ffurfiol (cyfweld) yn fwy buddiol.

14.A oes mynediad priodol at gyfraith Cymru ar gael?

Na. Ceir diffyg ymwybyddiaeth o'r gyfraith o sawl cwr. Y mae hyn yn deillio o'r ffaith fod dallineb gan ddarparwyr adnoddau/gwerslyfrau (there isn't a market for it) ac diffyg ymdrech i ganfod beth ydyw (I wouldn't feel confident to advise on Welsh law). Gan hynny, ceir datganiadau eang 'the law in Wales may be different' ond nid yw hyn yn creu ymwybyddiaeth ddigonol o'r gyfraith, ac mae hefyd yn parhau'r syniad nad yw cyfraith Cymru mor bwysig a chyfraith Lloegr. Gan hynny mae angen arweiniad o sawl cwr. Rhaid i gyhoeddwyr fod yn ymwybodol bod gwerslyfrau angen cynnwys manylder ynghylch cyfraith Cymru.

Rhaid hefyd sicrhau fod y ddwy Senedd yn fwy manwl wrth ddeddfu a diwygio deddfwriaeth i gywiro deddfau lle mae pŵer gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, y mae Deddf Addysg 1996 wedi ei diwygio sawl tro, ac mewn ffyrdd gwahanol ar gyfer Cymru a Lloegr. Gan hynny, wrth i, ddweder, yr ysgrifennydd addysg ar gyfer Lloegr ddiwygio'r ddeddf honno ar gyfer Lloegr, rhaid hefyd nodi ar y ddeddf fod yr adran newydd ar gyfer Lloegr yn unig, a bod yr adran nas newidir ar gyfer Cymru yn unig.

Y mae angen sicrhau fod cyrff cynghori nad ydynt a hyfforddiant cyfreithiol yn ymwybodol o beth yw'r gyfraith gan bod sawl agwedd o gyfraith Cymru yn ymdrin a materion lle nad yw pobol yn debygol o gael cyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr e.e. rhentu tai. Gyda chynnydd mewn cwmnïau yn cynnig pecynnau cyfreithiol, rhaid hefyd sicrhau fod pecynnau Cymru-benodol a Lloegr-benodol ar gael. Y mae diffyg argaeledd cyfraith Cymru yn rhywbeth sydd ag effeithiau mwy sylweddol i gynghorwyr cyfreithiol nag yw e i brifysgolion, oherwydd fod mwy o sgôp o fewn prifysgolion i gael mynediad i ffynonellau am dal (megis Lexis Nexis) ond nid yw hyn o reidrwydd yn wir ar gyfer cwmnïau cyfreithiol.